**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRUG A GYNHALIWYD NOS FAWRTH 20 AWST 2024 AM 19:00 DRWY ZOOM.**

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Rhys Parry (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Cemlyn Jones, Gwynedd Williams, Hefin Jones, Anne Lawton, Philip Roberts.

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Alan Pritchard, Berwyn Parry Jones.

**CLERC:** Meirion Jones

**1344. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod

**1345 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr y ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**1346. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol

**1347. I dderbyn cofnodion cyfarfod 16 Gorffennaf 2024**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**1348. Unrhyw fater yn codi o'r cofnodion**

**1349. I dderbyn adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones sef aelodau dros Llanrug a Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd**

**1350. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor y Fynwent**

1. Yn ystod cyfarfod yr is-bwyllgor y Fynwent ,30.7.24. Penderfynnwyd :

(a) Cyfeirio'r drefn torri beddi i'r ICCM am ei chyngor a chasglu gwybodaeth gan ymgymerwyr lleol am ei sustemau torri/ paratoi beddi. Ar ôl trafodaeth hir penderfynwyd, ar hyn o bryd, peidio creu swydd torrwr beddi sydd yn gyflogedig gan y Cyngor.

(b) Cyhoeddi tendr am waith ar y wal ar ymyl y fynwent .

(c) Cyhoeddi tendr am waith ychwanegol iechyd a diogelwch cofebion ar ôl cwblhau (b).

(ch) Derbyn polisi Bioamrywiaeth ar gyfer y fynwent (copi i'w rhannu gyda'r Cyngor a'r cyhoedd).

2. Mae'r is-bwyllgor a'r Clerc wedi derbyn ymateb yr Ombwdsman i gŵyn am dorri gwair yn y fynwent. Penderfynwyd yr Ombwdsman nad oedd y drefn cwyno briodol wedi'i defnyddio yn gywir gan yr achwynydd ac na cyflwynwyd unrhyw dystiolaeth bod y Cyngor wedi methu dilyn eu polisïau na'r gweithdrefnau. Ategodd yr Ombwdsman bod y Cyngor wedi egluro'n glir na nid cyfrifoldeb y Cyngor oedd y materion yn y cwyn h.y. glanhau beddi.

3. Cyfarfod nesaf o'r is-bwyllgor yn y fynwent : 4.9.24. i adolygu'r gwaith ymarferol sydd ei angen yn y fynwent.

**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1351. I gymeradwyo argymhelliad Pwyllgor y Fynwent i ddyfarnu contract adeiladu wal o gwmpas y fynwent.**

**Penderfynwyd:** Cymeradwyo penderfyniad pwyllgor y fynwent

**1352. Materion yn ymwneud a parcio (Cyng Hefin Jones)**

Adroddwyd fod cwyn wedi dderbyn yn erbyn trefniadau parciau ar yr ochr chwith o Sgwâr Llanrug ar hyd Ffordd yr Orsaf i gyfeiriad y siop sglodion. Roedd yn golygu fod sefyllfaoedd yn codi, pan mae ceir yn dod i gyfeiriad y Sgwâr o gyffiniau Co-op, yna fod ceir sydd yn mynd am Ffordd yr Orsaf yn gorfod ciwio at y ffordd fawr. Awgrymwyd y dylai ymestyn y llinellau melyn dwbl, sydd yn gorffen ar hyn o brud ger yr hen swyddfa bost.

**Penderfynwyd:** Adrodd y broblem i adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd

**1353. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C24/0557/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Adeiladu estyniad deulawr cefn ac ochr.
**Ymgeisydd:** Alex Broerst
**Asiant:** Group D Architects (Group D Architects)
**Cyfeiriad:**Station House, Llanrug, LL55 4AG
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Dim gwrthwynebiad ond ategu sylwadau Dwr Cymru

b) **Rhif y Cais:** C24/0587/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Adeiladu estyniad.
**Ymgeisydd:** Mr and Mrs R Williams
**Asiant:** Mr Gerwyn Jones (Outline Building Solutions Cyf)

**Cyfeiriad:** Glan Gors Ffordd Glanffynnon, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4PP
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Dim gwrthwynebiad

c) **Rhif y Cais:** C24/0481/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Good pwmp gwres ger yr eiddo. Installation of a free-standing Riello 8KW heat pump.
**Ymgeisydd:** Linda Jones
**Asiant:** Mr Matthew Edwards (Menai Heating Ltd)
**Cyfeiriad:** 1, Didfa, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2BQ
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Dim gwrthwynebiad

d) **Rhif y Cais:** C24/0516/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Gosod pwmp gwres ger yr eiddo. Installation of a RIELLO 12KW Heat pump
**Ymgeisydd:** Osian Jones
**Asiant:** Mr Matthew Edwards (Menai Heating Ltd)
**Cyfeiriad:** 2, Tal Gwynedd, Cwm Y Glo, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4DH
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Dim gwrthwynebiad

e) **Rhif y Cais:** C24/0586/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Estyniad deulawr arfaethedig i gefn yr eiddo.
**Ymgeisydd:** Ms Iola Williams
**Asiant:** Mr Alan Owen (A.L.I Buiding Design)
**Cyfeiriad:** 19, Rhos Rug Ffordd Yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4BG
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Dim gwrthwynebiad

f) **Rhif y Cais:** C24/0622/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Installation of a Riello Heat Pump
**Ymgeisydd:** Helen Peart
**Asiant:** Mr Matthew Edwards (Menai Heating Ltd)

**Cyfeiriad:** 2, Bryn Hyfryd, Cwm Y Glo, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4DU
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Dim gwrthwynebiad

**1354. Yn dilyn cais am diffibriliwr yn ardal Crawia fod y cyngor yn cymryd y camau cyntaf drwy chwilio am leoliad addas ynghyd a'r gost, cyn dod i benderfyniad.**